

Addysg Gymraeg

Dwy iaith:

dwy waith y cyfle



Dod o hyd i ni ar




Pam dewis Cymraeg?


Pa bynnag iaith rydych chi'n ei siarad gartref, gall addysg cyfrwng Cymraeg roi cyfleoedd, profiadau a sgiliau ychwanegol i'ch plentyn.

Mae dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn rhoi'r cyfle i'ch plentyn ehangu ei sgiliau dwyieithog yn greadigol ac yn academaidd.

Mae manteision ehangach i addysg ddwyieithog gan gynnwys effaith gadarnhaol ar alluoedd gwybyddol plentyn, ac mae'r buddion hyn yn aros am oes.



Gwyliwrch fideo yma



Sganiwrch y Cod QR



Mae
Cymraeg
yn perthyn
i ni gyd.

Jeremy Miles AS,
Gweinidog ar gyfer Addysg a'r Iaith Gymraeg.
Chwefror 2022.

Manteision o fod yn ddwyieithog...



Mae plant dwyieithog ar gyfartaledd 6.5% yn fwy effeithlon yn eu sgiliau meddwl na phlant uniaith



Mae enillion cyfartalog pobl ddwyieithog 8-10% yn uwch



Mae siarad mwy nag un iaith yn helpu i leihau'r risg o dementia yn ddiweddarach mewn bywyd




Mae dwyieithrwydd yn cynyddu cyfleoedd a dewisiadau

Gwylwch fideo yma



Sganiwch y Cod QR





Manteision addysgol

Mae plant dwyieithog ar gyfartaledd 6.5% yn fwy effeithlon yn eu sgiliau meddwl o gymharu â phlant sy'n defnyddio un iaith yn unig.

Gall dysgu dwy iaith ddod â hyd yn oed mwy o fanteision i ddatblygiad plant.

Manteision gyrfa

Mae siarad dwy iaith yn cynnig mwy o gyfleoedd cyflogi - mae sgil ychwanegol yn cynyddu gwerth a mantais gystadleuol.

Mae newidiadau diweddar mewn deddfwriaeth yn golygu y bydd angen gweithlu dwyieithog ar fwy o gyflogwyr.

Manteision gwybyddol

Mae pobl sy'n siarad dwy iaith yn fwy hyblyg a chreadigol - mae ganddyn

nhw fwy nag un gair am wrthrychau a chysyniadau.

Mae pobl ddwyieithog yn well am ddadansoddi data ac amldasgio, gwneud yn well mewn profion IQ a meddu ar sgiliau gwybyddol uwch.

Manteision Cymdeithasol a Chyfathrebu

Mae bod yn ddwyieithog yn creu perthynas agosach â hanes, treftadaeth a thraddodiadau Cymru. Mae'r manteision diwylliannol hyn yn creu hunaniaeth gref sy'n cynyddu'r ymdeimlad o berthyn a hunan-werth.

Mae pobl ddwyieithog yn fwy sensitif wrth gyfathrebu ac yn fwy ymwybodol o anghenion gwrandoawyr yn enwedig wrth newid o un iaith i'r llall.

Cymraeg



Cyfleoedd i'r Gymraeg

1. Dewis Addysg Gymraeg o'r dechrau

Cyn-Ysgol: Cylch Ti a Fi. Symud i leoliad ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ar gyfer Meithrin, gyda Chylch Meithrin yn darparu gofal plant ychwanegol, a pharhau yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn y dosbarth Derbyn ymlaen.

Mae 5 Ysgol Gynradd Gymraeg ar draws 6 safle yn Sir y Fflint i ddewis ohonynt.

Daw mwyafrif ein disgyblion o gefndiroedd di-Gymraeg – nid oes angen i chi siarad Cymraeg er mwyn i'ch plant lwyddo!

2. Symud o ysgol gynradd cyfrwng Saesneg i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg

Gallwch ddewis symud i addysg cyfrwng Cymraeg unrhyw bryd. Caiff dysgwyr eu cefnogi'n dda trwy raglen iaith bontio bwrpasol.

3. Symud o ysgol gynradd cyfrwng Saesneg i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg – Ysgol Maes Garmon

Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth drochi hynod effeithiol ar gyfer disgyblion sy'n trosglwyddo o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg ym Mlwyddyn 7. Mae'r rhaglen hon yn sicrhau bod disgyblion yn caffael y Gymraeg yn llwyddiannus ac fe'u cefnogir gan Sir y Fflint.

Dewis Addysg cyfrwng Cymraeg o'r dechrau

Mae mynchu Cylch Ti a Fi a symud ymlaen i Gylch Meithrin yn gyfle gwych i ddechrau defnyddio'r Gymraeg. Mae gweithgareddau'r Cylch yn cefnogi rhieni i ddefnyddio rhywfaint o Gymraeg adref ac yn rhoi cyfle i deuluoedd di-Gymraeg ddefnyddio'r iaith am y tro cyntaf gyda'u plant cyn iddynt symud i ddarpariaeth Feithrin mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg.



I ddod o hyd i'ch Cylch agosaf, ewch i wefan
Mudiad Meithrin: meithrin.cymru



Symud o ysgol gynradd cyfrwng Saesneg i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg

Croesewir eich plentyn gan ein hysgolion cynradd Cymraeg yn unrhyw oed ac maent yn cynnig rhaglen bontio bwrvpasol i gefnogi eich penderfyniad i symud eich plentyn i addysg cyfrwng Cymraeg.

Daw mwyafrif y disgyblion sy'n mynchu'r ysgolion yma o gartrefi di-Gymraeg. Ein nod yw datblygu gallu'r plant i gofleidio a defnyddio dwy iaith yn effeithiol erbyn iddynt adael yr ysgol gynradd.

Gyda hyn mewn golwg, mae ysgolion yn canolbwytio ar y Gymraeg yn ystod y blynnyddoedd cynnar. Cymraeg yw iaith swyddogol yr holl ysgolion hyn, ond y nod yw meithrin dwyieithrwydd trwy gydol y blynnyddoedd lau.

Mae 5 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint, ac mae pob un yn cynnig y rhaglen gydlynol a chynhwysfawr ar gyfer Newydd-ddyfodwyr i'r iaith.

Yr ysgolion hyn yw:



Ysgol Croes Atti,
safleoedd Fflint a
Glannau Dyfrdwy



Ysgol Glanrafon,
Yr Wyddgrug



Ysgol Gwenffrwd,
Treffynnon



Ysgol Terrig,
Treuddyn



Ysgol Mornant,
Picton



Newydd-ddyfodwyr i'r Gymraeg

Mae plant sy'n dechrau ym mlwyddyn 3 neu uwch, sy'n newydd i'r Gymraeg, yn cael eu cefnogi trwy raglen drochi iaith bwrpasol a chydlynol. Mae plant yn rhan o grŵp dysgu bach sy'n cael ei addysgu gan arbenigwyr mewn addysgu Cymraeg, ac yn cael eu cefnogi gan Athrawon Ymgynghorol y Gymraeg Sir y Fflint. Mae plant hefyd yn cael cyfleoedd i ymarfer yr iaith y maen nhw wedi bod yn ei dysgu o fewn amgylchedd eu dosbarth.



I was born in Wales to English parents, and attended Welsh-medium primary education from three years, and Cylch Meithrin before that. Welsh was a huge part of my childhood, and I have very happy memories of being part of the Urdd Eisteddfods and clubs. I moved to bilingual provision aged 11 but continued to use Welsh socially and at work.

I see the bilingual education I had as a huge advantage, and has helped me by giving me more options, opportunities and choice. I hope my children will be even more fluent than I am, and I started from birth trying to pass the language on.

My husband's family is Scottish, and he appreciates the opportunity our children have of being educated through Welsh, in such a way that Gaelic isn't taught. It is important to him that the children are immersed in the Welsh culture and language and believes being confident in both languages will help them in their future careers.

Our children are happy to talk, read and write in both languages and if they know a word I don't know they are always happy (in fact delighted!) to translate for me and teach us something new.



“ My husband and I are not Welsh speakers however we moved to Wales just at the time when our eldest child was due to start school. We initially did not intend to send her to a Welsh-medium school, but we did decide to look round as it was local to us. We were really impressed and received such a warm welcome that it was an easy decision to send her there. We were reassured by the headteacher that it was not a problem that we didn't speak Welsh.

Our children have all enjoyed learning in Welsh and have never known anything different, so they take it in their stride. It's amazing to watch them soak in a new language without really thinking or worrying about it. It's great to think that this skill might also help them learn other languages in the future.

Our daughter has taken part in the Urdd Eisteddfod and has enjoyed it so much. Competing alongside those from Welsh speaking families and holding her own is a testament to the strength of the Welsh-medium education system.

I think extended family were a bit hesitant about Welsh-medium education initially but soon came around when they saw how well the children took to it. There is a lovely sense of community at the school, and they enjoy all aspects of Welsh culture that they are exposed to.

On a practical level we have always had all communication in English as well as Welsh so never a problem knowing what is going on. The staff have always been friendly and quick to help with any questions. My experience is that Welsh-medium education enriches the whole education journey, I always recommend it without hesitation.

Symud o ysgol gynradd cyfrwng Saesneg i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg: Ysgol Maes Garmon

Mae disgyblion sy'n dewis addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg o ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn cael cynnig y cyfle i fynychu rhaglen ragarweiniol ar ddiwedd Blwyddyn 6 i baratoi ar gyfer ymuno â'r rhaglen Drochi ar ddechrau Blwyddyn 7.

Mae newydd-ddyfodwyr i'r iaith ym Mlwyddyn 7 yn dilyn y rhaglen Drochi Iwyddiannus ac yn cael eu haddysgu gyda'i gilydd mewn dosbarth bach a chefnogol iawn. Mae hyn yn galluogi mwy o ffocws ar ddatblygiad iaith drochi ym mhob pwnc.

Dros ddwy flynedd, mae disgyblion yn integreiddio'n gynyddol gyda disgyblion iaith gyntaf, gan ganiatáu iddynt ddatblygu a defnyddio eu medrau Cymraeg mewn ystod amrywiol o gyd-destunau, gyda'r nod o gael eu hintegreiddio'n llawn erbyn Blwyddyn 9.



Harvey



Harvey went to Hawarden Village Church Primary School. When we were looking at high schools for my son, the obvious choice was the local high school within walking distance. However, having started on my own Welsh language journey, I suggested Ysgol Maes Garmon - I'd only ever heard positive things about YMG, and I really liked the thought of my son speaking another language fluently. Also, I really feel that

speaking Welsh will help him in the future if he chooses to stay in Wales to live and work.

The open evening was a success: a real family feel; smiley students and friendly teachers (they were certainly patient with me when I was trying to communicate in Welsh!) So far, my son is enjoying his experience at YMG: he has made friends and is happy. I am blown away by how much Welsh he knows already - in such a short amount of time. He is able to recite language patterns confidently and has picked it up far quicker than I did when learning Welsh! I'm really looking forward to seeing his progress this year.

I ddarganfod mwy am gynllun Trochi yn YMG, ewch i wefan Cyngor Sir y Fflint yma: <https://www.siryfflnt.gov.uk/cy/Resident/Schools/Welsh-Medium-Schools.aspx>



Pia

Pia chose Ysgol Maes Garmon because:
‘I believe that learning Welsh can open up many opportunities. Ysgol Maes Garmon was a suitable school for me, with the small size and family feeling, which is more present in immersion.’

How was the change? ‘It is an easier transition into secondary school because everyone makes new friends quickly in the small group. Going forward we transition into the rest of the year. This was comfortable, I was able to get to know people and make new friends more gradually.’


What would be your message to someone who is considering the Immersion? ‘You would be very happy that you took the leap to do something completely new, to have a unique experience and learn a lot. It is the most rewarding experience I have had, and it has allowed me to confidently complete my exams in the Welsh language.’



A gwefan yr Ysgol yma:
<https://ysgolmaesgarmon.com/cynllun-trochi/>



neu sganiwch y Cod QR



Beth am ar ôl ysgol?


Edrych i'r dyfodol fel siaradwr Cymraeg - symud i addysg bellach neu fyd hyfforddiant a gwaith.

Bellach mae dewis cynyddol o bynciau, modiwlau a phrentisiaethau ar gael yn y Gymraeg i alluogi myfyrwyr i barhau i astudio drwy'r Gymraeg. Mae hyn yn allweddol er mwyn cyfrannu at weithlu medrus, dwyieithog ar gyfer y dyfodol.

Gwyliwr fideo yma



Sganiwrch y Cod QR



Menter Iaith:
Cyfres o fideos byr
(pob un o dan 1 munud)
yn amlygu manteision
addysg ddwyieithog.

Cefnogi eich Cymraeg yn y Gymuned

Mae sawl mudiad a chymdeithas yn cefnogi defnydd y Gymraeg ac yn trefnu digwyddiadau a gweithgareddau dwyieithog ar gyfer plant a theuluoedd:



Menter Iaith Fflint a Wrecsam



Urdd Fflint a Wrecsam



Mudiad Meithrin



Cymraeg i Blant



RHAG



Cwestiynau cyffredin:

Sut gallaf i helpu fy mhlentyn efo gwaith cartref os nad ydw i'n siarad Cymraeg?

Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn darparu cyfarwyddiadau gwaith cartref yn y Gymraeg a'r Saesneg felly ni fydd problem deall yr hyn y gofynnir i'ch plentyn ei wneud. Mae pob ysgol yn darparu cyngor addysgol, mae HWB yn darparu mynediad i ystod o raglenni ac adnoddau dysgu digidol.

Bydd y plant yn drysu a bydd safon eu Saesneg yn dioddef

Ar gyfartaledd, mae plant dwyieithog yn cyflawni canlyniadau uwch yn y Saesneg. Mae hefyd yn atgyfnerthu gwybodaeth a dealltwriaeth y plentyn pan fydd yn esbonio i rieni yn Saesneg beth mae'n ei wneud.

Sut gall fy mhlentyn gyrraedd ein hysgol Gymraeg lleol?

Rydyn ni yma i helpu. Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu cludiant am ddim* i blant o oedran ysgol orfodol (h.y.. 5-16 oed) fel a ganlyn:


- os yw'r plentyn yn cael addysg gynradd ac yn byw dros ddwy filltir o'r ysgol addas agosaf,
- os yw'r plentyn yn cael addysg uwchradd ac yn byw dros dair milltir o'r ysgol addas agosaf,
- os yw'r rhieni'n cael Cymhorthdal Incwm neu Gredyd Treth Gwaith, ac mae'r cartref dros 2.5milltir o'r ysgol addas agosaf.

(*i'r ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf, yn ôl y meinu prawf a nodir uchod)

Mae gan fy mhlentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol, a allwn ni barhau i gael mynediad i addysg Gymraeg?

Gallwch, mae darpariaeth Gymraeg ar gyfer ADY ar gael. Lleolir y dosbarth adnodd Cymraeg yn Ysgol Glanrafon, Yr Wyddgrug.

Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am ddarpariaeth uwchradd ac ADY ar wefan Sir y Fflint (manylion ar dudalen 16.)





Cymraeg



Miliwn o Siaradwyr Llywodraeth Cymru a Chynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg Sir y Fflint

Nod Llywodraeth Cymru yw cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050 a chynyddu'r nifer o bobl sy'n defnyddio'r iaith bob dydd.

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn Sir y Fflint yn declyn strategol hirdymor er mwyn i ni gyfrannu at nod ledled y wlad i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Rydym yn ceisio cael pobl o bob oedran i wella eu sgiliau iaith Gymraeg a chanddynt y gallu i ddefnyddio'r rhain yn hyderus o fewn eu teuluoedd, yn eu mannau dysgu, yn eu gweithleoedd ac yn eu cymunedau.

Addysg Gymraeg

Dwy iaith: dwy waith y cyfle



Gall eich plentyn gael ei drochi'n llwyr yn yr iaith Gymraeg o'r blynnyddoedd cynnar



Gall eich plentyn ymuno ag unrhyw ysgol cyfrwng Cymraeg y Sir yn ystod addysg gynradd a chânt eu cefnogi



Cefnogir eich plentyn wrth iddynt symud o ysgol gynradd cyfrwng Saesneg i addysg uwchradd Gymraeg trwy gynllun Trochi Sir y Fflint yn Ysgol Maes Garmon

Cysylltiadau ar gyfer Derbyniadau



01352 704068/704073



admissions@flintshire.gov.uk



www.siryffflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/Welsh-Medium-Schools.aspx



Gwybodaeth yn gywir Gwanwyn 2025. Yn amodol ar newidiadau gydag adolygiadau rheolaidd o'r ddarpariaeth.